

Sefyllfaoedd lle gallai fod angen cofrestru wrth ddarparu bwyd yn y gymuned

Canllawiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd yn ystod COVID-19 lle gallai fod angen i unigolion sy'n darparu bwyd gofrestru fel busnes bwyd.

Os ydych chi'n darparu bwyd i'r gymuned, efallai y bydd angen i chi [gofrestru gyda'ch awdurdod lleol fel busnes bwyd](#). Gallai hyn gynnwys y rhai sy'n darparu prydau bwyd i unigolion agored i niwed neu staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), neu'r rhai sy'n gweithredu o gegin gartref.

Mae cyfraith bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gofrestru gweithgareddau lle mae bwyd yn cael ei gyflenwi'n rheolaidd ac yn dilyn strwythur. Mae hyn yn ofynnol p'un a yw bwyd yn cael ei roi am ddim neu ei werthu.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu [canllawiau ar ddarparu bwyd cymunedol ac elusennol](#). Os ydych chi'n darparu bwyd i'r gymuned, dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r [canllawiau ar ddiogelwch bwyd ar gyfer coginio cymunedol](#). Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gofrestru, hylendid bwyd, rheoli alergenau, labelu bwyd a gofynion hylendid dosbarthu bwyd.

Mae'r enghreifftiau ar y dudalen hon yn disgrifio gweithgareddau bwyd a allai fod angen eu cofrestru fel busnes bwyd. Nid yw bob amser yn glir a oes angen cofrestru ar gyfer cyflenwi bwyd cymunedol ac elusennol.

Mae natur, maint a pha mor rheolaidd yw gweithgareddau yn y sector cymunedol ac elusennol yn amrywiol ac mae'r enghreifftiau hyn yn ceisio adlewyrchu hyn. Fe'u dyluniwyd i adlewyrchu gweithgareddau ac ymddygiad bwyd mewn perthynas â phandemig COVID-19.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o weithgareddau a allai olygu bod angen cofrestru. Rydym ni'n eich cyngori i gysylltu â'ch awdurdod lleol os ydych chi'n ansicr a oes angen i chi gofrestru neu beidio.

Annhebygol bod angen cofrestru

Mae'n annhebygol y bydd angen cofrestru ar gyfer darparu bwyd yn y sefyllfa ganlynol:

Sefyllfa un

- **Sefyllfa** – Mae aelod o'r cyhoedd yn creu bocsys bwyd o nwyddau silff-sefydlog, fel bwyd tun, ac yn eu danfon i gymdogion oedrannus ar sail ad hoc.
- **Rheswm** – Nid ystyrir bod y gweithgarwch hwn yn dilyn strwythur. Mae bwyd silff-sefydlog yn risg isel, er ei fod yn cael ei ddarparu i gr?p agored i niwed yn y sefyllfa hon. Nid oes angen i'r aelod o'r cyhoedd gofrestru gyda'i awdurdod lleol.

Tebygol bod angen cofrestru

Mae darparu bwyd yn y sefyllfaoedd canlynol yn cynnwys parhad gweithgarwch a rhywfaint o drefn o ran dilyn strwythur. Felly byddai angen cofrestru:

Sefyllfa dau

- **Sefyllfa** – Mae sefydliad elusennol yn defnyddio arian y maen nhw wedi'i godi i archebu prydau bwyd o fwytai a siopau tecawê lleol. Maent yn casglu'r bwyd hwn ac yn ei ddsbarthu i drigolion lleol yn wythnosol.
- **Rheswm** – Ystyrir bod y gweithgarwch hwn yn drefnus ac yn dilyn strwythur. Mae elfen o risg i ddsbarthu prydau poeth neu oer ac mae'n ofynnol i'r sefydliad sicrhau bod prydau bwyd yn cael eu diogelu rhag halogiad. Dylai'r sefydliad elusennol gofrestru gyda'i awdurdod lleol.

Sefyllfa tri

- **Sefyllfa** – Mae perchennog busnes bwyd cofrestredig sy'n rhedeg busnes sydd wedi'i arolygu a'i sgorio gan yr awdurdod lleol, yn paratoi ac yn danfon prydau bwyd o gegin eu cartref.
- **Rheswm** – Ystyrir bod y gweithgarwch hwn yn drefnus ac yn dilyn strwythur. Er ei fod wedi'i gofrestru gyda'r awdurdod lleol, mae gweithredu o amgylchedd cartref yn creu lefel wahanol o risg o fewn y gweithgarwch. Mae rhan o'r asesiad arolygu yn cwmpasu'r safle ei hun. Felly, os yw safle gwahanol yn cael ei ddefnyddio gan y busnes i baratoi bwyd, rhaid iddo hefyd gael ei gofrestru gyda'i awdurdod lleol.

Sefyllfa pedwar

- **Sefyllfa** – Mae clwb cymunedol nad oedd wedi cofrestru o'r blaen, gan ei fod ond yn gwerthu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw pan oedd y clwb cymunedol yn cael ei ddefnyddio, wedi arallgyfeirio i drin a pharatoi bwyd risg uchel. Mae hyn am gyfnod o wythnosau yn ystod ymateb COVID-19.
- **Rheswm** – Ystyrir bod y gweithgarwch hwn yn drefnus ac yn dilyn strwythur. Mae gweithrediad newydd y clwb yn creu lefel wahanol o risg. Mae elfen o risg i ddsbarthu prydau poeth neu oer ac mae'n ofynnol i'r sefydliad sicrhau bod prydau bwyd yn cael eu diogelu rhag halogiad. Dylai'r clwb cymunedol gofrestru gyda'i awdurdod lleol.